# Swydd Ddisgrifiad

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

| Ein Dyfodol. | Ein Dyfodol. | Ein Dyfodol. | Ein Dyfodol. | Ein Dyfodol. |
|---|---|---|---|---|
| Rhagoriaeth. | Cynhwysiad. | Cydweithio. | Trawsnewidiad. | Cynaliadwyedd. |
| Cliciwch yma. | Cliciwch yma. | Cliciwch yma. | Cliciwch yma. | Cliciwch yma. |

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Adran** | Swyddfa Fenter |
| **Adran** | Menter |
| **Teitl y Swydd** | Rheolwr Perthnasoedd Cyllido ac Adrodd |
| **Yn atebol i** | Pennaeth Menter |
| **Gradd** | S&AP1 |

## Prif Atebolrwydd

Fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar y diwydiant, mae'r Brifysgol yn chwarae rôl flaenllaw wrth ymgysylltu â diwydiant, gan sicrhau bod arbenigedd academaidd yn cyd-fynd ag anghenion busnes i gynorthwyo arloesedd, datblygu sgiliau a thwf economaidd rhanbarthol. Mae'r rôl hon yn ganolog i alluogi'r gweithgarwch hwn drwy reoli, cydlynu a sicrhau prosiectau strategol bwysig a ariennir, yn effeithiol.

Mae'r rôl yn gyfrifol am sicrhau cyflawni effeithiol a chydymffurfiaeth prosiectau mawr a ariennir sy'n cyd-fynd â strategaeth Campws 2030 y Brifysgol a mentrau yn y dyfodol (e.e., Uchelgais Gogledd Cymru/Bargen Dwf, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Medr, a phrosiectau a ariennir gan y Parth Buddsoddi). Mae hyn yn cynnwys diogelu cyflawniad allbynnau, deilliannau a manteision fel y'u diffinnir gan gyllidwyr ac amcanion sefydliadol.

Fel y prif gyswllt â chyllidwyr allanol mawr, bydd deiliad y swydd yn cynnal perthnasoedd cydweithredol, cryf ac yn sicrhau cyfathrebu clir. Byddant yn gweithredu fel rheolwr perthnasoedd, gan gynrychioli buddiannau'r Brifysgol a darparu diweddariadau amserol ar gynnydd prosiectau a phrif ddangosyddion perfformiad.

Bydd y rôl yn darparu arweinyddiaeth weithredol ar gyfer prosiectau a ariennir ar raddfa fawr, gan oruchwylio gweithgareddau rheoli prosiectau fel dyrannu tasgau, rheoli risg, cydymffurfiaeth a sicrhau bod cyflawni camau gweithredu prosiect yn cyflawni'r allbynnau, deilliannau a'r manteision ar gyfer y prosiectau'n llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys cydlynu adnoddau a sicrhau bod yr holl agweddau gweithredol yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y rôl hefyd yn cynorthwyo'r gwelliant mewn adennill cyllid trwy sicrhau bod gweithgarwch rheoli

prosiect yn cael ei gofnodi'n briodol o fewn hawliadau grant a dyraniadau gorbenion cymwys lle bo'n berthnasol.

Yr atebolrwydd allweddol yw cynnal safonau cydymffurfio drwy sicrhau ymlyniad i ofynion cyllidwyr, rheoliadau caffael, ac ymrwymiadau cytundebol sy'n berthnasol i gyflawni prif ddangosyddion perfformiad gweithredol prosiectau mawr. Mae'r rôl yn gofyn am gydweithrediad agos o fewn y tîm Menter, gyda thimau mewnol eraill ar draws y brifysgol, gan gynnwys, cyfadrannau academaidd, Cyfreithiol, Cyllid, a Chaffael, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol. Mae'r rôl yn hanfodol wrth ddiogelu sefyllfa ariannol ac enw da'r Brifysgol trwy liniaru risg sefydliadol sy'n gysylltiedig â gweithgarwch a ariennir yn allanol, gan sicrhau bod cyllid yn cael ei ddiogelu drwy lywodraethu cadarn, cydymffurfio a chyflawni prosiectau.

## Tasgau Allweddol

- Darparu trosolwg strategol o berfformiad prosiect, gan ddefnyddio prif ddangosyddion perfformiad, dangosfyrddau ac offer adrodd i gynghori uwch arweinyddiaeth ar gynnydd, risgiau a phroblemau sy'n dod i'r amlwg.
- Casglu, dilysu a chynnal tystiolaeth o allbynnau, deilliannau a manteision ar gyfer prosiectau mawr gwerth uchel a ariennir (e.e., Campws 2030, Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Medr, Parth Buddsoddi) gan sicrhau llywodraethu cadarn a bod yn barod am archwiliad llawn.
- Ffeilio a chofnodi tystiolaeth ym mhyrth cyllidwyr a sicrhau adrodd amserol, cywir, gan weithio'n rhagweithiol i ragweld a datrys materion cyn y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno.
- Sicrhau ac archwilio bod amcanion gwariant sy'n ofynnol ar gyfer prosiectau a ariennir ar y trywydd cywir a darparu rhagolygon, rhagamcanion a risgiau sy'n gysylltiedig ag amcanion o'r fath.
- Monitro gofynion cydymffurfiaeth a thystiolaeth i leihau risgiau ariannol a chytundebol, gan sicrhau bod yr holl adroddiadau, hawliadau a dogfennaeth yn bodloni safonau'r cyllidwyr ac yn gwrthsefyll craffu allanol.
- Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer cyllidwyr mawr, gan ymateb i ymholiadau a darparu diweddariadau prosiect clir, awdurdodol.
- Trefnu, arwain a hwyluso cyfarfodydd a seminarau cydweithredol sy'n cynnwys timau mewnol a phartneriaid allanol sy'n ymwneud â'r prosiectau a ariennir, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion strategol.
- Cyfrannu at ofynion adrodd sefydliadol sy'n gysylltiedig â gweithgarwch a ariennir yn allanol (e.e. HRBCIS ac enillion statudol neu strategol eraill), gan sicrhau cywirdeb, cysondeb data a'i fod yn cyd-fynd ag allbynnau a deilliannau prosiect.
- Trefnu, dyrannu a monitro tasgau a ddyranwyd i randdeiliaid mewn gweithrediadau neu gyfarfodydd strategaeth sy'n berthnasol i brosiectau a ariennir.
- Cysylltu â chydweithwyr mewnol a sefydliadau allanol ar gyfer hysbysiadau tendr, hysbysiadau marchnata a gweithgarwch caffael cyhoeddus, gan sicrhau ymlyniad llawn i reoliadau caffael.
- Bydd deiliad y swydd yn darparu diweddariad a sicrwydd i uwch arweinyddiaeth ar berfformiad a chydymffurfiaeth prosiect, a bydd yn cynyddu risgiau a materion lle bo angen i gynorthwyo gwneud penderfyniadau gwybodus.

- Cydlynu strwythurau llywodraethu prosiect, paratoi papurau, briffiau a chrynodebau ar gyfer pwyllgorau mewnol a chyrff goruchwylio allanol.
- Mae'r rôl yn gweithredu ar lefel sefydliadol, sy'n gofyn am y gallu i gydlynu gweithgarwch ar draws cyfadrannau a gwasanaethau proffesiynol, gan sicrhau bod rhaglenni a ariennir yn cael eu cyflawni'n gyson ac yn gydymffurfiol.
- Cynorthwyo'r tîm Arloesi a Masnacheiddio ochr yn ochr â thimau cyfreithiol i ddarparu cytundebau a chymalau cytundebol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau prosiect, gan sicrhau bod cytundebau'n cyd-fynd â gofynion cyllidwyr a blaenoriaethau sefydliadol.
- Datblygu a chynnal perthnasoedd cryf, cydweithredol gydag uwch arweinwyr ar draws y Brifysgol a sefydliadau partner i gynorthwyo cyflawni llwyddiannus ac effaith prosiect hirdymor.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill y'u hystyrir yn rhesymol ichi eu cyflawni dan gyfrifoldebau'r swydd, dan gyfarwyddyd y Pennaeth Menter.

## Nodweddion Arbennig

Mae'r rôl yn cynnwys cylch gwaith traws-brifysgol ac mae angen gweithio'n agos gydag uwch gydweithwyr, cyllidwyr allanol a sefydliadau partner. Mae'n cynnwys rheoli gofynion cyllido cymhleth, dehongli rheoliadau, a sicrhau bod prosiectau'n parhau i fod yn gwbl gydymffurfiol ac yn barod am archwiliad. Mae disgwyl i ddeiliad y swydd arfer lefel uchel o farn broffesiynol, gweithredu gydag ymreolaeth, a darparu cyngor a sicrwydd clir i uwch arweinwyr.

Efallai y bydd gofyn teithio i gyfarfodydd cyllidwyr a phartneriaid yn achlysurol.

## Dyletswyddau Cyffredinol

Byddwch yn sicrhau bod systemau a gweithdrefnau rheoli priodol ar waith er mwyn bodloni'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a geir ym mholisi iechyd a diogelwch y Brifysgol. Yn benodol, byddwch yn sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal mewn perthynas â pheryglon sylweddol ac yr ymgymerir ag arolygon diogelwch o leiaf unwaith y flwyddyn ym mhob gweithle dan eich rheolaeth chi.

Cyfrifoldeb y gweithwyr yw rhoi Polisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol ar waith o fewn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldeb am hyrwyddo gofal cwsmer o safon yn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain.

Rhaid i staff fod yn ymwybodol o ymrwymiad y Brifysgol i Gynaliadwyedd.

Rhaid i bob aelod o staff hyrwyddo ymddygiad iach ac iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol

Disgwylir i ddeiliaid swydd gydweithredu â'r broses Adolygu Datblygiad Proffesiynol, gan gymryd rhan wrth osod amcanion er mwyn helpu i fonitro perfformiad a datblygiad yr unigolyn.

Byddwch yn asesu anghenion hyfforddiant a datblygiad pob aelod o staff dan eich rheolaeth i sicrhau eu bod yn cael eu cynorthwyo'n ddigonol mewn perthynas â'u cyfrifoldebau yn y gwaith.

Dyletswyddau perthnasol eraill sy'n gymesur â gradd y swydd, a all gael eu neilltuo gan y Rheolwr, mewn cytundeb â deiliad y swydd. Ni ddylid gwrthod cytundeb o'r fath yn afresymol.

Mae’r cyfrifoldebau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y swydd ddisgrifiad hwn yn rhai nodweddiadol; nid ydynt yn gynhwysfawr. Gellir addasu dyletswyddau a chyfrifoldebau mewn trafodaeth â deiliad y swydd.

Disgwylir i'r holl ddeiliaid swydd yn y Gyfarwyddiaeth allu cynnig cymorth ar draws pob maes, y tu hwnt i'w tîm uniongyrchol, ar gais y Cyfarwyddwr ac yn gymesur â'u sgiliau, eu gwybodaeth a’u profiad.

## Adolygu

Mae hwn yn ddisgrifiad o'r swydd adeg ei chyhoeddi. Mae'n arfer gan y Brifysgol o bryd i'w gilydd i adolygu a diweddaru disgrifiadau swydd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu natur gyfredol y swydd a gofynion y Brifysgol yn gywir, ac i ymgorffori newidiadau rhesymol pan fo angen, mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd.

# Manyleb Person

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

**Teitl y Swydd:** **Rheolwr Perthnasoedd Cyllido ac Adrodd**

Er mwyn cael eich rhoi ar y rhestr fer, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn diwallu pob un o'r meini prawf hanfodol a hynny o'r meini prawf dymunol ag sy'n bosibl. Pan fydd gennym nifer fawr o geisiadau sy'n diwallu'r holl feini prawf hanfodol, byddwn wedyn yn llunio'r rhestr fer gan ddefnyddio'r meini prawf dymunol.

## Meini Prawf Dethol

| | Priodoleddau | Eitem | Meini Prawf Perthnasol | Dull Adnabod | Pwysigrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Sgiliau a Galluoedd | 1.1 | Pwyslais cryf ar gwsmeriaid a darparu gwasanaeth hwn. | Ff/C | H |
| | | 1.2 | Trafodwr medrus ar bob lefel | Ff/C | H |
| | | 1.3 | Lefel uchel o broffesiynoldeb ac ymrwymiad | Ff/C | H |
| | | 1.4 | Sgiliau Dadansoddi Data | Ff/C | H |
| | | 1.5 | Sgiliau masnachol cryf | Ff/C | H |
| | | 1.6 | Sgiliau ysgrifennu cryf | Ff/C | H |
| | | 1.7 | Profiad o reoli allbynnau ar gyfer prosiectau a ariennir mewn lleoliadau sefydliad addysg uwch | Ff/C | D |
| | | 1.8 | Dealltwriaeth gref o lywodraethu, cydymffurfio a gofynion archwilio sy'n gysylltiedig â rhaglenni a ariennir yn allanol | Ff/C | H |
| 2 | Gwybodaeth Gyffredinol ac Arbenigol | 2.1 | Gwybodaeth am ofynion llywodraethu, cydymffurfio, archwilio a sicrwydd sy'n gysylltiedig â rhaglenni a ariennir yn allanol. | Ff/C | H |
| | | 2.2 | Gwybodaeth am fonitro a rhoi tystiolaeth o allbynnau, deilliannau, manteision prosiectau a chyflawni prif ddangosyddion perfformiad yn unol â gofynion cyllidwyr. | Ff/C | H |
| | | 2.3 | Gwybodaeth am y dirwedd addysg uwch a chyllido cyhoeddus, yn benodol mewn | Ff/C | D |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | perthynas â phrosiectau strategol a rhai a ariennir yn allanol. | | |
| | | 2.4 | Gwybodaeth am ofynion caffael a chytundebol sy'n berthnasol wrth gyflawni prosiectau a ariennir yn gyhoeddus. | Ff/C | H |
| 3 | Addysg a Hyfforddiant | 3.1 | Gradd Baglor | Ff/C | H |
| | | 3.2 | Cymhwyster ôl-raddedig | Ff/C | D |
| 4 | Profiad Perthnasol | 4.1 | Profiad Rheoli Busnes mewn deilliannau, allbynnau, manteision prosiectau a mecanweithiau olrhain prif ddangosyddion perfformiad eraill ar gyfer prosiectau mawr, cymhleth | Ff/C | H |
| | | 4.2 | Profiad o reoli cleientiaid | Ff/C | H |
| | | 4.3 | Profiad o roi cyflwyniadau a chreu achos busnes | Ff/CFf/C | H |
| | | 4.4 | Profiad o ddatblygu a darparu cymalau cyfreithiol masnachol a gweithredol ar gyfer allbynnau prosiect a phrif ddangosyddion perfformiad | Ff/C | D |
| | | 4.5 | Profiad o'r amgylchedd AU a thirweddau cyllido cysylltiedig | Ff/C | D |
| | | 4.6 | Profiad o fethodolegau dadansoddi data | Ff/C | D |
| 5 | Gofynion Arbennig | 5.1 | Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg | Ff, C | D |
| **Dyddiad Adolygu** | | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Allwedd** | **Dull Adnabod** | **Ff** | Ffurflen Gais |
| | | **C** | Cyfweliad |
| | | **P** | Prawf |
| | | **T** | Copi o Dystysgrifau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Rh** | Rhoi Cyflwyniad |
| | | **G** | Asesiad Grŵp |
| | **Pwysigrwydd** | **H** | Hanfodol |
| | | **D** | Dymunol |

